

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

Tachwedd 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

Tachwedd 2024



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddCyllid


Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



Peter Fox AS
Ceidwadwyr Cymreig



Mike Hedges AS
Llafur Cymru



Rhianon Passmore AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Argymhellion a Casgliad	5
1. Cyflwyniad.....	7
2. Beth yw cyfalaf trafodiadau ariannol?	8
Y rheolau sy'n llywodraethu cyfalaf trafodiadau ariannol	9
Rôl Banc Datblygu Cymru	11
Diwygio cyfalaf trafodiadau ariannol.....	14
Barn y Pwyllgor.....	16
3. Cyfalaf trafodiadau ariannol yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru	19
Cyflwyniad.....	19
Cyllid canlyniadol	21
Dadgyfuno	22
Barn y Pwyllgor.....	24
4. Defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol	26
Portffolio Llywodraeth Cymru.....	26
Cryfderau a gwendidau	27
Ad-dalu	33
Ailgylchu cronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol	36
Barn y Pwyllgor.....	38

Argymhellion a Casgliad

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn asesu sut y mae ailddosbarthiad Banc Datblygu Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel corff llywodraeth ganolog wedi effeithio ar y ffordd y gall ddefnyddio a dyrannu cyllid cyfalaf trafodiadau riannol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad yr asesiad, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd.

..... Tudalen 18

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch diwygio cyfalaf trafodiadau ariannol..... Tudalen 18

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau cyfanswm y cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael hyd yn hyn. Tudalen 25

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod manylion ynghylch dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael eu cyflwyno yn nogfennaeth Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd i ddod ac, os nad yw hy yn bosibl, y caiff esboniad llawn ei roi i gyfiawnhau'r dull gweithredu a fabwysiadwyd..... Tudalen 25

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y mae symiau canlyniadol Barnett yn effeithio ar y cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol sydd ar gael, cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid ychwanegol o'r fath..... Tudalen 25

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi data cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'u dadgyfuno ochr yn ochr â dogfennau'r Gyllideb Ddrafft o 2025-26 ymlaen. Tudalen 25

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnal dadansoddiad o'r defnydd o gyfalaf trafodiadau ariannol, fesul sector, ac yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor..... Tudalen 42

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd sy'n ymwneud â chyfalaf trafodiadau ariannol yn cael eu rhannu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, a bod hyfforddiant yn cael ei dargedu at staff mewn meysydd polisi nad ydynt wedi defnyddio'r cyllid hwnnw yn llawn hyd yn hyn..... Tudalen 42

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi'r tri maen prawf llwyddiant a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfalaf trafodiadau ariannol a bod hyn yn rhan o ganllawiau i fusnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais amgylid o'r fath fel bod y canlyniadau disgwylidig yn hysbys ar y dechrau cyn gwneud cais. Tudalen 42

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan Fanc Datblygu Cymru i symleiddio'r broses ymgeisio am gyfalaf trafodiadau ariannol, a'r rhwystrau a wynebodd wrth wneud hynny o fewn y fframwaith resennol..... Tudalen 42

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi manylion ynghylch dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a wneir o fewn ei gyllideb a'r rhesymau dros y cyllid hwnnw, bob blwyddyn. Tudalen 42

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi rhagor o eglurhad ynghylch y broses y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i ad-dalu ei chyfalaf trafodiadau ariannol i Drysorlys EF, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd..... Tudalen 42

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn esbonio sut y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio tanwariant mewn dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol fel cyfalaf cyffredinol. Tudalen 42

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro faint o gyfalaf trafodiadau ariannol sy'n cael ei ailgylchu bob blwyddyn ariannol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi yn ei chyllideb ddrafft flynyddol a'i dogfennaeth alldro fel mater o dref..... Tudalen 43

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn ymchwilio i'r dull o ddefnyddio cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i ailgylchu ar draws nifer o feysydd y dyrannwyd ar eu cyfer yn wreiddiol o fewn rheolau cyfalaf trafodiadau ariannol, er myn ei gwneud yn bosibl defnyddio'r arian hwnnw yn hyblyg i gyd-fynd â blaenoriaethau polisi a chyllidebol Llywodraeth Cymru. Tudalen 43

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn arf cyllidol defnyddiol, ond bod gallu Llywodraeth Cymru i wneud y gorau o'i effeithiolrwydd yn cael ei lesteirio gan y natur ansicr a'r rheolau llym ynghylch ei ddefnydd a osodir yn ganolog an Lywodraeth y DU..... 18

1. Cyflwyniad

1. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) i gynnal ymchwiliad byr i gyfalaf trafodiadau ariannol, gyda'r cylch gorchwyl a ganlyn:

- Y rheolau sy'n llywodraethu'r defnydd o gyfalaf trafodiadau ariannol.
- Y dibenion y mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol ar eu cyfer.
- Cryfderau a gwendidau cyfalaf trafodiadau ariannol.
- Sut mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael ei ad-dalu, gan gynnwys disgwyliadau a symiau.
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn ei chyllidebau drafft a therfynol, gan gynnwys eglurder ynghylch faint sydd wedi'i dderbyn, faint sydd wedi'i wario, a faint sydd wedi'i drosglwyddo'n ôl i Drysorlys EF.

2. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda'r tystion a ganlyn ar 18 Gorffennaf 2024:¹

- David Staziker, Prif Swyddog Ariannol, Banc Datblygu Cymru ccc;
- Robert Hunter, Cyfarwyddwr Strategaeth, Pobl a Datblygu, Banc Datblygu Cymru ccc;
- David Ward, Prif Swyddog Gweithredol, Tirion Group Ltd;
- Richard Mann, Prif Weithredwr y Grŵp, United Welsh; a
- Kate Pender, Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol, Fair4AllFinance.

3. Cynhaliwyd sesiwn dechnegol breifat hefyd yn ystod yr un cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru.

4. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth hefyd gyda Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, ar 18 Medi 2024.²

¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024.

² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024

2. Beth yw cyfalaf trafodiadau ariannol?

5. Mae Llywodraeth y DU yn darparu cyfalaf trafodiadau ariannol fel rhan o grant bloc Llywodraeth Cymru.³ Mae'n elfen wedi'i chlustnodi o gyllid cyfalaf, a elwir weithiau'n 'fenthyciadau net' neu'n 'fenthyciadau polisi' ac mae'n cynnwys benthyciadau neu fuddsoddiad ecwiti gan y gweinyddiaethau datganoledig i'r sector preifat.⁴

6. Gan y trinnir cyfalaf trafodiadau ariannol fel trafodiad ariannol yn hytrach na gwariant, nid yw'n effeithio ar fenthyciadau net y sector cyhoeddus ond mae'n ychwanegu at ddyled net y sector cyhoeddus.⁵ O ran y disgrisiwn a roddir i Lywodraeth Cymru wrth weithredu cyfalaf trafodiadau ariannol, caiff gweinyddiaethau datganoledig benderfynu ar eu rhaglenni eu hunain yn eu dyraniad cyfalaf trafodiadau ariannol, ond mae dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol adrannol Llywodraeth y DU wedi'u clustnodi ar gyfer rhaglenni penodol y maent wedi'u dyrannu ar eu cyfer.⁶

7. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet rywfaint o gefndir i gyfalaf trafodiadau ariannol a sut y mae'n gweithredu yng nghyd-destun datganoledig Cymru:

*"FTCs were an invention of one of the previous Conservative Governments ... they were essentially a device to allow the Treasury to avoid declaring capital expenditure in a way that scored against the deficit. So, this is in the era of George Osborne as Chancellor, where the size of the deficit was a political preoccupation and FTCs were a way of providing capital in a way that didn't score against it."*⁷

8. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod y ffordd y dyrennir cyfalaf trafodiadau ariannol gan Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru yn ansicr iawn:

"... every year there is uncertainty, because we don't hear until the autumn statement how much financial transactions

³ Trysorlys EF, Datganiad o bolisi ariannu: Ariannu Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hydref 2021, Pennod 6 (Saesneg yn unig)

⁴ Trysorlys EF, Datganiad o bolisi ariannu: Ariannu Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hydref 2021, Pennod 3 (Saesneg yn unig)

⁵ Trysorlys EF, Datganiad o bolisi ariannu: Ariannu Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hydref 2021, Pennod 6 (Saesneg yn unig)

⁶ Trysorlys EF, Datganiad o bolisi ariannu: Ariannu Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hydref 2021, paragraffau 6.6 a 6.9 (Saesneg yn unig)

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 11

capital is coming our way, and we have that short gap between the autumn statement and our own draft and final budget in order to show how we are going to use the quantum that we now have.

9. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

“... the risk is always that we suddenly get more than we're expecting and we have to go and try to find new ways in which the money can be used, because it's a use-it-or-lose-it form of money. So, if you can't find a way of using it, you can't keep it and use it in the future; it goes. Or the risk is that you put a lot of effort into encouraging a pipeline and you have to work quite hard with people who are new to all of this to explain the rules, to get people through the process and things, only to find that, having done all of that, the sum of money you were maybe anticipating doesn't materialise. So, in either way—too much, too little—the risks are real, and the amount of time you have to manage that risk isn't really sufficient for the purpose, I'd say.”⁸

10. Ychwanegodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet fod swm y cyfalaf trafodiadau ariannol ychwanegol a fydd yn cyrraedd bob blwyddyn yn anrhagweladwy iawn, ac yn anwadadwy. Dywedodd y canlynol:

“... I think that's part of the problem, the unpredictability of the flow of it into our budget, and so it makes it very difficult to plan how many projects do we want to commission here, how hard do we try to find projects to allocate funding to. That's the bit that's really difficult with this.”⁹

Y rheolau sy'n llywodraethu cyfalaf trafodiadau ariannol

11. Mae datganiad o bolisi ariannu a chanllawiau cyllidebu cyfunol Llywodraeth y DU yn nodi rhai o'r rheolau ynghylch cyfalaf trafodiadau ariannol.¹⁰ Mae'r rheolau sy'n llywodraethu cyfalaf trafodiadau ariannol hefyd wedi'u nodi ym Mhennod 8 o ganllawiau cyllidebu cyfunol y DU.¹¹ Mae'r rhain yn amlinellu y caniateir defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol at ddau ddiben: fel benthygiad i endid;¹² neu fel

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 15

⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 17

¹⁰ [Trysorlys EF, Canllawiau Cyllidebu Cyfunol: 2024-25, Mawrth 2024](#) (Saesneg yn unig)

¹¹ [Trysorlys EF, Canllawiau Cyllidebu Cyfunol: 2024-25, Mawrth 2024](#) (Saesneg yn unig)

¹² Mae endid, yng nghyd-destun cyfalaf trafodiadau ariannol, yn gorff o ffiniau cyfrifyddu/cyllidebol Llywodraeth Cymru, er enghraifft busnes neu elusen. (Requires hyperlink)

buddsoddiad ecwiti. Mae angen i unrhyw ystyriaeth o ddefnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol, neu gymorthdaliadau Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, fodloni'r saith egwyddor ar gyfer cymorthdaliadau, sy'n sail i gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU ac yn sail i benderfynu a yw dyfarniad neu gynllun cymorthdaliadau'n cydymffurfio.¹³

12. Ar y cyfan, rhaid ad-dalu'r arian i Drysorlys EF. Yn wahanol i grantiau¹⁴, disgwylir i gyfalaf trafodiadau ariannol greu elw ariannol, rhaid ei ad-dalu a dim ond i endidau y tu allan i ffiniau cyfrifyddu/cyllidebu Llywodraeth Cymru y caniateir eu rhoi.

13. Yn ôl Llywodraeth Cymru, dylid defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol pan wneir benthyciad neu fuddsoddiad ecwiti i endidau y tu allan i ffiniau cyfrifyddu/cyllidebu Cymru.¹⁵ Datganwyd y canlynol yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru:

"Y peth gorau yw meddwl am FTC fel math o gyfalaf na ellir ei ddefnyddio ond ar gyfer benthyciad/buddsoddiad ecwiti i endid Cymreig a ddewiswyd, ac sy'n cael ei reoli, a'i danysgrifennu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fath o gyfalaf y disgwylir iddo gynhyrchu elw ariannol ac sydd y tu allan i ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Er y gellir defnyddio cyfalaf cyffredinol at ddibenion tebyg, dim ond o dan y telerau hyn y gellir defnyddio FTC."¹⁶

14. O ran y cwmpas sydd gan Lywodraeth Cymru i weinyddu cyfalaf trafodiadau ariannol, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

"The result is that it operates in what I would describe as a straitjacket of rules, because financial transactions capital can only be used for particular purposes, can only be used with particular organisations, and the fundamental underlying rule is that these are loans or equity investments that have to be paid back. So, it's not like conventional capital in that way. Any loan you make, you have to have confidence that the money will come back, because the Welsh Government has to repay the money to the Treasury."¹⁷

¹³ Llywodraeth Cymru, Canllawiau: Rheoli cymorthdaliadau, Ionawr 2023

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

¹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 11

15. Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw at y diffyg hyblygrwydd a roddir gan y rheolau presennol ynghylch cyfalaf trafodiadau ariannol:

“... the Welsh Government operates very much within the rules for financial transactions capital set by the UK Government. It’s not an area in which there is a great deal of discretion afforded to the Welsh Government ... there are purposes for which it is a sensible device, but, overall, the narrowness of the rules, and the fact that these are rules not set at all in Wales but we have to operate within, limits its usefulness, and that has been the story of the whole period in which it’s been available.”¹⁸

Rôl Banc Datblygu Cymru

16. Banc Datblygu Cymru ccc (BDC) yw cangen fuddsoddi Llywodraeth Cymru, sy’n darparu cyllid i helpu i sefydlu a thyfu busnesau. Mae BDC yn cynnig benthyciadau rhwng £1,000 a £5 miliwn, er bod benthyciad mwyaf BDC dros £10 miliwn i Bluestone.¹⁹

17. Ffurfiwyd BDC o Cyllid Cymru ccc ym mis Hydref 2017. Cafodd BDC (ac eithrio FW Capital Limited, sy’n rhan o Grŵp BDC a’i gangen rheoli cyllid) ei ailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) fel corff llywodraeth ganolog yn hytrach na chorfforaeth gyhoeddus, ym mis Awst 2021. Daeth y SYG i’r casgliad a ganlyn:

... as WG [Llywodraeth Cymru] has constraints on both DBW Plc’s assets and liabilities, it is mainly acting on behalf of the WG, its controlling unit, (MGDD 2019, 1.6.6, 48) and its range of activities is governed by the policy framework and remit letter set by Welsh Ministers. As such DBW Plc has been classified to the central government subsector (S.1311) with effect from 6 October 2017, the date its predecessor Finance Wales plc changed its name to DBW Plc and adopted the existing articles of association.²⁰

18. Yn ei ymchwiliad i BDC, argymhellodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y canlynol:

¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 11

¹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 61

²⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Canllaw dosbarthu a blaengynllun gwaith y sector cyhoeddus, 22 Hydref 2024 (Saesneg yn unig)

“Mae rhaid i Lywodraeth Cymru geisio dod â negodiadau i ben â Thrysorlys EF cyn gynted â phosibl ar ddatrysiad boddhaol i'r mater aiddosbarthu ar gyfer Banc Datblygu Cymru. Mae rhaid i'r cytundeb y deuir iddo ddiogelu rôl y Banc ac osgoi cyfyngu ar ei weithgareddau fel benthyciwr, ac mae rhaid iddo sicrhau hefyd nad yw'n cael effaith andwyol ar sefyllfa gyllidebol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.”²¹

19. Esboniodd BDC yr effaith y mae'r newid diweddar yn ei ddsbarthiad wedi'i chael ar ei allu i weinyddu cyfalaf trafodiadau ariannol. Nododd BDC y canlynol:

“Life has changed ... since we got reclassified. A lot of the time, historically, we may have got some of the money in advance, whereas now, on an ongoing basis, financial transactions are drawn on a quarterly basis in advance ... There are some circumstances where some of the historic money, particularly on Help to Buy, has not been fully used, so we're working with the Welsh Government as to how we repay that to them.”²²

20. Esboniodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet pam yr ymgwymerwyd â'r newid hwn yn y dosbarthiad:

“It started off because DBW hadn't officially been classified. It was Finance Wales on a previous classification, so it had been some time and was ready for review.”²³

21. Rhoddodd y swyddog hefyd drosolwg o sut yr ymgwymerwyd â'r broses gan y SYG:

“It was a very long process, a lot of engagement with members of the ONS, the development bank themselves, and Welsh Government, and it was ... borderline the whole time that we thought that it was still going to come out as a public corporation. But the assessment process is all done against the European system of accounts—ESA 2010—and MGDD, the manual on government deficit and debt guidance, which had changed over time. And against that guidance, the final

²¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru, Gorffennaf 2024, Argymhelliad 6.

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 141

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 89

decision of the ONS was that the development bank was a central Government body.”²⁴

22. O ran sut roedd hyn wedi effeithio ar allu BDC i reoli cyfalaf trafodiadau ariannol, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod hyn wedi achosi problemau ymarferol:

“A change of classification of DBW does affect our ability to manage the annualised nature of financial transactions capital. Under the previous classification, it was possible for money to leave the Welsh Government’s accounts and be used by DBW, not on an annual basis, but over a longer time frame. We can’t do that now because of the reclassification, so it’s just introduced another constraint on the way in which we can deploy.”²⁵

23. Fodd bynnag, ychwanegodd y swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

“... I think it's fair to say ... that we're still kind of working through what the new rules are now around how this is going to work with DBW. So, that's kind of where we are at the moment; it's just trying to work through with Treasury exactly how or what the implications of the classification are for both the sort of future flow of financial transactions and also the stock that DBW are managing.”²⁶

24. Rhaid i BDC greu digon o enillion ar fuddsoddiadau er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cyflawni ei rhwymedigaethau ad-dalu cyffredinol o 80 y cant i Drysorlys EF.²⁷ Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli cyfalaf trafodiadau ariannol fel portffolio, gan gynnwys portffolio BDC o gynlluniau cyfalaf trafodiadau ariannol a ariennir, felly cytunir ymlaen llaw ar yr enillion sydd eu hangen ar gyfer pob cronfa neu gynllun.²⁸

25. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, cadarnhaodd BDC fod tua 65 y cant o bortffolio BDC sydd wedi'i fuddsoddi mewn cwmnïau yng Nghymru yn gyfalaf trafodiadau ariannol, gyda'r 35 y cant sy'n weddill yn gyfalaf craidd yn bennaf.²⁹

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 89

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 79

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 83

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 14

26. Pan ofynnwyd iddo sut y mae rôl BDC yn wahanol i fanciau'r stryd fawr, esboniodd BDC fel a ganlyn:

*"We're tasked with not displacing the private sector; the whole point is trying to be additional ... So, we price similarly to the private sector; it's usually slightly higher than them, because it's more risk and so that we don't displace them."*³⁰

27. Ychwanegodd BDC ei fod yn gyllidwr bylchau sy'n ffitio yn y canol, yn hytrach na bod yn rhywbeth sy'n cymryd yr achosion nad ydynt yn apelio at neb arall.³¹ O ran sut y mae'n gweithio gyda benthycwyr eraill, esboniodd BDC y canlynol:

*"It's not always the customer that's going to come to us for the whole finance package. Quite often, they will come to us—. They've gone to the bank, the bank will lend up to the security that they can offer, and then they'll come to us and we'll fill that risk space to make the deal happen. So, we often—. I think it's in the majority of deals we're partnering with other lenders where they take the lower risk element, and we take the higher risk to enable that deal to go forward."*³²

28. Mae rôl BDC yn y ffordd y mae sefydliadau eraill yn defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael ei harchwilio'n fanylach ym Mhennod 4 o'r adroddiad hwn.

Diwygio cyfalaf trafodiadau ariannol

29. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud, o ganlyniad i newidiadau i'r canllawiau cyllidebu cyfunol a'r datganiad o bolisi ariannu³³ yn dilyn Adolygiad o Wariant y DU ar gyfer 2022-2023, ei bod wrthi'n diwygio'r ffordd y caiff cyfalaf trafodiadau ariannol ei reoli a'i ddyrannu; disgwylir i'r newidiadau gael effaith o broses y Cyllideb ar gyfer 2026-27. Dywedodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

*"... oherwydd bod portffolio'r FT wedi tyfu a'r rheolau wedi esblygu dros gyfnod o amser, rydym wedi cydnabod ei bod yn amserol gwneud hyn."*³⁴

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 39

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 96

³² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 62

²⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Canllaw dosbarthu'r sector cyhoeddus, taflen 3 (Saesneg yn unig)

³³ Trysorlys EF, Canllawiau Cyllidebu Cyfunol: 2024-25, Mawrth 2024. (Saesneg yn unig)

³⁴ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

30. Fodd bynnag, pan gafodd ei holi am ddyfodol cyfalaf trafodiadau ariannol, anogodd yr Ysgrifennydd Cabinet bwyll, gan ddweud y canlynol:

*"... I think the future is inherently uncertain in this area, and for two reasons. One is that there is a new Government and there will be new preoccupations. This Government is much more, understandably, focused on the debt, rather than the deficit, and FTCs count against debt calculations. So, I think they may want to take a more fundamental look at whether this is a device that they wish to continue to use. I don't think it will be top of the list of the Treasury team. I think they'll have other more pressing things that they're going to be dealing with in the next period, through to the comprehensive spending review."*³⁵

31. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"... even if they do decide to keep it, and it continues on the previous basis, then that's inherently uncertain as well because we are entirely dependent, for the amount of FTC we have in Wales, on decisions that are made for spending purposes in England. And given that this originated and continues to be dominated by money provided for Help to Buy, and the Conservative Government in England decided that they weren't going to proceed with Help to Buy, well, that would have a very destabilising impact upon the amount of financial transactions capital that would come to Wales."*³⁶

32. I gloi, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"... we are left in that inherently uncertain world of not knowing whether the quantum we will have to manage is of the sort we've become used to, or whether it could suddenly be radically reduced because of a policy decision made in a different context and for different purposes".*³⁷

33. Pan gafodd ei holi beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

³⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 13

³⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 13

³⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 13

*"... in a way, our strategy is to make the best of a bad job ... These are not rules that we think are helpful to us in Wales, but we still want to make the most of the opportunity that comes with it."*³⁸

34. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet dri maes ffocws ar gyfer diwygio cyfalaf trafodiadau ariannol yn sylfaenol:

*"... I think there are three things that I would be looking for. The first, and the most important, is the removal of the ring fence, that we had more flexibility to use this money in a way that matches Welsh needs and circumstances, rather than operating within a model that doesn't allow us any flexibility to do that. That would be the main thing. The second thing that I would look for in a reformed system would be the stability of flow of money ... it would help us a great deal if we had a more predictable sense of how that money was to come to us. And then the third thing: I think if there was less constraint, that would help us to be less bureaucratic in the way that we use the money, because we would be able to devise a system that matched those new flexibilities."*³⁹

35. Fodd bynnag, daeth yr Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

*"Of course, I'd much rather that we just had conventional capital; that's the most useful thing we would get, without an invented form of capital to meet an artificial avoidance of the rules, which is what this really, at base, is."*⁴⁰

Barn y Pwyllgor

36. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn arf cyllidol pwysig i Lywodraeth Cymru ond mae hefyd yn cydnabod ei gyfyngiadau a bod Llywodraeth Cymru, yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, yn gwneud y gorau o sefyllfa wael yn y modd y mae'n defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol. Rydym hefyd yn derbyn bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn fath o gyfalaf a ddyfeisiwyd er mwyn osgoi'r rheolau'n artiffisial ac nad yw'n cymryd lle gwariant cyfalaf confensiynol, sy'n fwy hyblyg ac yn galluogi mwy o ddisgresiwn i Lywodraeth Cymru gyfeirio cyllid i'r meysydd lle y mae ei angen fwyaf.

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 155

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 111

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 111

- 37.** At hynny, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu cyfalaf trafodiadau ariannol o fewn rheolau cyfyng nad oes ganddi reolaeth drostynt ac a osodir yn ganolog gan Drysorlys EF. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn ei hanfod yn ansicr ac yn anwadal, sy'n achosi anawsterau i Lywodraeth Cymru wrth gynllunio ar gyfer ei ddefnyddio yn y tymor canolig i'r tymor hir.
- 38.** Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn yn dangos y gall cyfalaf trafodiadau ariannol gefnogi canlyniadau polisi arwyddocaol (trafodir ei gryfderau a'i wendidau ymhellach ym Mhennod 4). Rydym hefyd yn nodi, ers i'r Pwyllgor ddechrau ei ymchwiliad, y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid ychwanegol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf drwy Gyllideb Hydref y DU.⁴¹ Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y gall cyfalaf trafodiadau ariannol barhau i gael rôl wrth gyflawni nodau ac amcanion polisi penodol ac mae'n annog yr Ysgrifennydd Cabinet i weithio gyda BDC i wneud y defnydd gorau ohono.
- 39.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth sy'n dangos rôl hanfodol Banc Datblygu Cymru ccc wrth weinyddu benthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol. Serch hynny, bydd aildosbarthiad diweddar BDC fel corff llywodraeth ganolog, yn hytrach na chorfforaeth gyhoeddus yn cyfyngu ar y ffordd y gall BDC gefnogi cyfalaf trafodiadau ariannol yn effeithiol, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu sut y bydd y newid hwn yn effeithio ar y gwasanaethau a'r cynhyrchion y gall eu darparu.
- 40.** Rydym hefyd yn pryderu am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y cwmpas ar gyfer arloesi yn BDC i sicrhau bod cyllid ar gael i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf.
- 41.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n diwygio'r ffordd y mae'n rheoli cyfalaf trafodiadau ariannol. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar ei chanllawiau i ehangu'r meysydd yn ei phortffolio a all wneud cais a defnyddio cyllid o'r fath, ac yn enwedig y tri maes ffocws ar gyfer diwygio sylfaenol a nododd yr Ysgrifennydd Cabinet.
- 42.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y rhain yn egwyddorion cadarn i wneud gwelliannau i'r prosesau ynghylch cyfalaf trafodiadau ariannol, ac rydym yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn trafodaethau â Thrysorlys EF yn y maes hwn.

⁴¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg: Cyllideb y DU yn "gam cyntaf i drwsio difrod yr 14 mlynedd diwethaf", 30 Hydref 2024.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn arf cyllidol defnyddiol, ond bod gallu Llywodraeth Cymru i wneud y gorau o'i effeithiolrwydd yn cael ei lesteirio gan y natur ansicr a'r rheolau llym ynghylch ei ddefnydd a osodir yn ganolog gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn asesu sut y mae aildosbarthiad Banc Datblygu Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel corff llywodraeth ganolog wedi effeithio ar y ffordd y gall ddefnyddio a dyrannu cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad yr asesiad, gan gynnwys unrhyw gamau a gymerwyd.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd trafodaethau â'r Trysorlys ynghylch diwygio cyfalaf trafodiadau ariannol.

3. Cyfalaf trafodiadau ariannol yng Nghyllideb Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

43. Mae Cyllideb Derfynol 2024-25 Llywodraeth Cymru yn nodi portffolio o fuddsoddiad cyfalaf trafodiadau ariannol gwerth £2.2 biliwn.⁴² Mae'n dangos dyraniad cyffredinol cyfalaf trafodiadau ariannol gwerth £167 miliwn ar gyfer 2024-25.⁴³

44. Yn ôl gwybodaeth a rannwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod sesiwn frifffio dechnegol breifat ar gyfalaf trafodiadau ariannol, roedd Llywodraeth Cymru wedi cael £1.42 biliwn mewn cyfalaf trafodiadau ariannol hyd at 2023-24.⁴⁴ Fodd bynnag, mae tystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd wedi hynny gan Lywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi cael £1.37 biliwn gros hyd yn hyn.⁴⁵

45. Amlinellodd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 rywfaint o'r £31.8 miliwn a ddyrannwyd bryd hynny.⁴⁶ Mae hyn yn cynnwys:

- £20 miliwn tuag at ddatblygu Cynllun Datgarboneiddio Addysg Bellach ac Uwch;
- Caiff £7 miliwn ei ddyrannu i greu Cronfa Safleoedd Segur Cymru;
- £2.8 miliwn ar gyfer rhaglen Model Buddsoddi Cydfuddiannol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

46. Mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 hefyd yn nodi y dyrannwyd cyfalaf trafodiadau ariannol i MEG yr Economi i ddatblygu "cais sy'n sensitif yn fasnachol".⁴⁷

47. Mae Cyllideb Derfynol 2024-25 Llywodraeth Cymru yn amlinellu dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol,⁴⁸ ond nid yw'n nodi'n benodol y dyraniadau gwerth

⁴² Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2024-25 Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Chwefror 2024, tudalen 8

⁴³ Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2024-25: Tablau sy'n cefnogi'r nodyn esboniadol, Chwefror 2024

⁴⁴ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 25

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 25

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Derfynol 2024-25 Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, Chwefror 2024, tudalen 8

£66.5 miliwn a wnaed dan y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd, sy'n cynnwys:⁴⁹

- £20 miliwn i gefnogi gwaith adnewyddu Morglawdd Caergybi;
- £20 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer gweithgareddau'r Cytundeb Cydweithio yn ymwneud â thai;
- £10 miliwn i'w fuddsoddi yn y sector lled-ddargludyddion;
- £7.7 miliwn ar gyfer Fiber Limited Trafnidiaeth Cymru (TrC) i gefnogi masnacheiddio capasiti gormodol rhwydwaith ffibr y rheilffyrdd;
- £4 miliwn i BDC i helpu i gefnogi perchnogion tai i ôl-osod a datgarboneiddio eu cartrefi drwy ariannu pymphiau gwres a phaneli solar;
- £4.8 miliwn i Morlais Menter Môn gefnogi dyfeisiau ffrwd lanw.

48. Yn 2019, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ystyried cyfalaf trafodiadau ariannol. Yn dilyn sesiynau casglu tystiolaeth, gwnaeth y Pwyllgor ddau argymhelliad yn ymwneud â chyfalaf trafodiadau ariannol yn benodol⁵⁰, gyda Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddau.⁵¹

49. Gwnaeth y Pwyllgor yn y Chweched Senedd sylwadau hefyd ar gyfalaf trafodiadau ariannol yn ystod ei waith craffu ar y gyllideb, gan gynnwys materion yn ymwneud ag amseriad cyhoeddiadau cyfalaf trafodiadau ariannol gan Lywodraeth y DU. Ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25, dywedodd y Pwyllgor fod:

"... amseriad datganiad hydref 2023 y DU wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i wneud dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol llawn fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Mae'r Pwyllgor wedi argymhell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ddyraniadau trafodiadau ariannol... Mae'n siomedig felly na roddwyd sylw i'r materion hyn a galwn am eglurder ynghylch dyraniadau trafodiadau ariannol ar gyfer 2024-25 cyn gynted â phosibl, ac

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, Y strategaeth buddsoddi yn seilwaith Cymru 2021, 20 Rhagfyr 2021

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyllid (Y Bumed Senedd), Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019, Argymhellion 3 a 4

⁵¹ Llywodraeth Cymru, Ymateb i argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i Ffynonellau Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru, 8 Ionawr 2020

*i'r wybodaeth hon fod ar gael yn gynt mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol.*⁵²

50. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys penderfyniadau a dogfennaeth sy'n ymwneud â dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a chyffredinol fel rhan o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft yn y dyfodol.⁵³ Er y derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, dywedodd y canlynol:

*"Rydym yn cydnabod y byddai'r Senedd yn hoffi gweld yr holl ddyraniadau cyfalaf Trafodiadau Ariannol yn cael eu darparu yn y Gyllideb Ddrafft, ac yn wir dyna fyddai ein dewis, ond mae'r ffaith bod Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU yn hwyr ynghyd â chymhlethdod y mecanweithiau hyn yn aml yn gofyn am ddiwydrwydd dyladwy ychwanegol cyn y gallwn gyhoeddi cyllid."*⁵⁴

51. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod angen cysoni'r portffolio cyfalaf trafodiadau ariannol presennol ym mhob Cyllideb Flynyddol, er mwyn sicrhau y caiff ad-daliadau eu dychwelyd i gydbwysu sefyllfa'r cyfalaf trafodiadau ariannol ac fel y cytunir ar unrhyw newid yn yr amserlenni ad-dalu. Yna caiff dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol newydd eu hystyried drwy broses y gyllideb.⁵⁵

52. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn nodi maint cyfalaf trafodiadau ariannol yn y gyllideb.⁵⁶ Fodd bynnag, dywedodd y swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y gallai Llywodraeth Cymru dynnu'r wybodaeth am gyfalaf trafodiadau ariannol ynghyd mewn un lle, gan ychwanegu bod hynny'n rhywbeth y gellir edrych arno.⁵⁷

Cyllid canlyniadol

53. Mae setliad cyfalaf trafodiadau ariannol cyffredinol Llywodraeth Cymru yn destun symiau canlyniadol negyddol gan Lywodraeth y DU yn ymwneud ag ad-daliadau o gynlluniau presennol y DU, yn ogystal â symiau canlyniadol cadarnhaol a gynhyrchir drwy fuddsoddiadau newydd.

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, paragraff 217.

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 21.

⁵⁴ Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, 1 Mawrth 2024.

⁵⁵ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 103.

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 108.

54. Mae tystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn cadarnhau bod y ffordd y mae fformiwla Barnett yn cael ei chymhwyso yn effeithio ar y ffordd y rheolir cyfalaf trafodiadau ariannol:

“Rydym yn derbyn cyllid sy'n ymwneud â chynlluniau yn Lloegr yn seiliedig ar broffiliau risg a thelerau ad-dalu Lloegr. Yn gyffredinol, er ein bod wedi gwneud rhai pethau tebyg (ee Cymorth i Brynu), rydym hefyd wedi gwneud rhai pethau gwahanol sy'n golygu bod ein portffolio'n wahanol iawn i bortffolio Llywodraeth y DU (mewn meysydd datganoledig) ac mae hynny'n golygu bod y modd y mae Barnett yn cael ei gymhwyso i newidiadau ym mhortffolio'r DU yn ffordd eithriadol o ar hap o wneud penderfynu ar newidiadau i'n cyllideb FT ni.”⁵⁸

55. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hyn, gan ddweud y canlynol wrth y Pwyllgor:

“Barnett applies in this area in exactly the way that it applies to everything else. English departments, for this purpose, make decisions about the extent to which they are going to use financial transactions capital, and we get a Barnett consequential of that.”⁵⁹

56. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

“It's why the volatility is such a characteristic of the scheme, because what might be quite a small decision for an English department, given their scale, can have quite a big impact on us, because we are much smaller and that amount of volatility matters more.”⁶⁰

Dadgyfuno

57. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cadarnhaodd BDC nad yw'n darparu data cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'u dadgyfuno yn ei adroddiad blynyddol na'i

⁵⁸ Llywodraeth Cymru, [Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol](#), Gorffennaf 2024.

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 143

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 143

gyfrifon.⁶¹ Pan ofynnwyd iddo a allai'r data hyn fod ar gael, cadarnhaodd BDC eu bod yn cael eu darparu i Lywodraeth Cymru, ond nid yn y cyfrifon blynyddol.⁶²

58. Wrth esbonio pam nad yw'n cyhoeddi data wedi'u dadgyfuno ar gyfalaf trafodiadau ariannol, nododd BDC gymhlethdod rheolau cyfrifyddu amrywiol⁶³, gan fynd ymlaen i ddweud y canlynol:

*"If we were to go into more detail about the sources of funding we manage, it just—. I don't know if you've tried to read our annual report and accounts, but it's not a straightforward read. The feedback from the ETRA committee is that they still find it a challenge. So, I think, if we went into more detail, I'm not sure that would help the reader. But it's certainly something we can consider. The detail is given, obviously, to Welsh Government, who are more interested in that, whereas I'm not sure that the wider public is interested, and it's certainly not something that we need to do, statutory wise."*⁶⁴

59. Pan ofynnwyd iddo a allai gwybodaeth gael ei darparu am brosiectau sy'n elwa ar gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

"... there's certainly a list of all the projects that have been funded in this way since the start, which the committee is very welcome to have; data is disaggregated to that extent".⁶⁵

60. Fodd bynnag, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

"I once had a discussion ... with the Development Bank of Wales, and their view at the time was that, from the user's point of view ... they'd never been asked for disaggregation in that way, and they weren't sure that it would have encouraged more applications to come forward, if it had been available in that way".⁶⁶

⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 74

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 78

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 76

⁶⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 76

⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 59

⁶⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 59

Barn y Pwyllgor

61. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn gyfystyr â chyllid sylweddol, gyda phortffolio buddsoddiad cyfalaf trafodiadau ariannol Llywodraeth Cymru gwerth £2.2 biliwn yn 2024-25. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cael trafferth deall faint o gyfalaf trafodiadau ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael hyd yn hyn, o ystyried y nododd yr wybodaeth a rannwyd yn y sesiwn friffio dechnegol ffigur £1.42 biliwn hyd at 2023-2024, gyda thystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn nodi ffigur £1.37 biliwn hyd yn hyn. Rydym yn credu bod hyn yn dangos y diffyg eglurder ynghylch sut y cyflwynir cyfalaf trafodiadau ariannol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ac rydym yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i esbonio'r gwahaniaethau yn y ffigurau.

62. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi argymhell o'r blaen bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o eglurder yn ei dogfennaeth cyllideb flynyddol i esbonio sut y gwneir dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol, at ba ddiben a faint o hyn sy'n gyllid wedi'i ailgylchu.⁶⁷ Er ein bod yn cydnabod ei bod yn anodd i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwybodaeth o'r fath oherwydd bod datganiad yr hydref yn hwyr a chymhlethdod mecanweithiau cyfalaf trafodiadau ariannol, rydym yn parhau i deimlo bod hyn yn destun gofid.

63. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau gan swyddogion a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet bod casglu gwybodaeth am gyfalaf trafodiadau ariannol gyda'i gilydd mewn un lle yn rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru edrych arno. Mae hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir rydym yn gobeithio y bydd yn arwain at fwy o eglurder ynghylch sut y cyflwynir cyfalaf trafodiadau ariannol yn nogfennaeth cyllideb Llywodraeth Cymru. O ran egwyddor, rydym yn credu y dylid cyflwyno manylion am swm y cyllid a ddyrennir ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol yn glir fel y gall y Senedd ddwyn y penderfyniadau hyn i gyfrif wrth graffu ar y Cyllideb Ddrafft, ochr yn ochr â phenderfyniadau cyllidebol eraill a wneir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod.

64. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod newidiadau i ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru wedi'u llywio gan symiau canlyniadol Barnett, yn yr un modd ag y mae'n gymwys i agweddau eraill ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddem yn croesawu rhagor o eglurhad ynghylch pa effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol Llywodraeth Cymru.

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 21

65. Mae'r Pwyllgor wedi galw o'r blaen ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion yn ei dogfennaeth cyllideb ynghylch y cyllid canlyniadol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael⁶⁸, ac yn gofyn y tro hwn am wybodaeth benodol am y cyllid ychwanegol a gafodd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfalaf trafodiadau ariannol, ar gamau'r gyllideb atodol a'r gyllideb flynyddol.

66. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r heriau y mae BDC yn eu hwynebu wrth ddarparu data cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'u dadgyfuno yn ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd cyhoeddi gwybodaeth o'r fath o reidrwydd yn arwain at gynnydd yn y cyfraddau ymgeisio. Fodd bynnag, rydym yn credu y byddai darparu gwybodaeth o'r fath ochr yn ochr â'r manylion eraill y gofynnir amdanynt yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â chyfalaf trafodiadau ariannol yn gwella tryloywder ac yn galluogi dwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau am gyfalaf trafodiadau ariannol i gyfrif yn briodol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau cyfanswm y cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael hyd yn hyn.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod manylion ynghylch dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael eu cyflwyno yn nogfennaeth Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd i ddod ac, os nad yw hyn yn bosibl, y caiff esboniad llawn ei roi i gyfiawnhau'r dull gweithredu a fabwysiadwyd.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y mae symiau canlyniadol Barnett yn effeithio ar y cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol sydd ar gael, cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyllid ychwanegol o'r fath.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi data cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'u dadgyfuno ochr yn ochr â dogfennau'r Gyllideb Ddrafft o 2025-26 ymlaen.

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Gorffennaf 2023, Argymhelliad 3

4. Defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol

Portffolio Llywodraeth Cymru

67. Mae portffolio cyfalaf trafodiadau ariannol Llywodraeth Cymru yn cynnwys cymysgedd o fuddsoddiad economaidd a buddsoddiad tai ynghyd â buddsoddiad addysg bach drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.⁶⁹ Rheolir y rhan fwyaf o'r portffolio gan Fanc Datblygu Cymru (BDC) ar ran Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r berthynas â BDC, mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai'r adran bolisi berthnasol sy'n gyfrifol am reoli ei phortffolio priodol.

68. Mae BDC wedi defnyddio dros £1.1 biliwn o gyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i wasgaru ar draws ystod o gronfeydd sector a chyffredinol. Yn ôl BDC, mae hyn yn diwallu "ystod eang o anghenion am fenthyciadau a chyllid ecwiti ar delerau masnachol".⁷⁰ Cadarnhaodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y bydd y £300 miliwn sy'n weddill o'r £1.4 biliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael wedi'i wario ar ystod o fuddsoddiadau uniongyrchol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud gyda busnesau yn bennaf.⁷¹

69. O ran dull Llywodraeth Cymru o ddefnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol unwaith y bydd swm y cyfalaf yn hysbys ar ôl datganiad yr hydref:

"... a commission goes round the whole of the Government to say, 'Have you got purposes that this could be useful to you in being able to secure funding for them?'"⁷²

70. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd mai'r adran tai ac adran yr economi sy'n gwneud y defnydd mwyaf o gyfalaf trafodiadau ariannol a bod y sectorau cyfiawnder cymdeithasol, addysg uwch ac addysg bellach ac ynni adnewyddadwy hefyd wedi'i ddefnyddio dros amser.⁷³

71. Pan y'i holwyd ynghylch lefelau gwybodaeth adrannau Llywodraeth Cymru am gyfalaf trafodiadau ariannol, cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

"... knowledge will be different depending on the extent to which departments have used this in the past. So, a department that

⁶⁹ [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad Model Buddsoddi Cydfuddiannol 2022 - 2024, 20 Mai 2024](#)

⁷⁰ [Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru](#)

⁷¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 57

⁷² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 33

⁷³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 35

has made good use of it will be in a better position than departments that are less familiar.”⁷⁴

72. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

“... we do have the advantage of being a small Government, so people are able to talk to each other and get advice from people who have done this more than they have themselves.”⁷⁵

73. O ran dull Llywodraeth Cymru o fesur ei llwyddiant ei hun o ran defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol, amlinellodd yr Ysgrifennydd Cabinet dri maen prawf ynghylch ei ddefnyddio:

“Well, for me, the first criterion of success is that we're using the money, because, as I say, this is money that, if you don't use it, then it's lost for public purposes in Wales, and getting it used at all has not been easy. So, my first criterion of success is: are we actually able to deploy it?

My second criterion of success, because we have to live within the rules that we have set for us, is that it is being used with projects that then demonstrate that they are able to make repayments, because, investing this sort of money, your recipient has to have an income stream that they can demonstrate will allow them to repay. So, my second criterion would be: can it be repaid?

But then ...: as well as the financial viability of the investment ... you need to be able to demonstrate the social purpose for which the investment is being made ...

And then ..., quite often, there is a future financial sustainability aspect to it ... So, I think future sustainability will be another success criteria.”⁷⁶

Cryfderau a gwendidau

74. O ran cryfderau cyfalaf trafodiadau ariannol, nododd Llywodraeth Cymru y canlynol yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

⁷⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 35

⁷⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 35

⁷⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraffau 62-65

*"[Mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn] caniatáu i'r Llywodraeth weithredu fel Angel Buddsoddi sy'n alinio amcanion cymdeithasol â buddsoddiadau tymor hir. Mewn rhai achosion cyfyngedig, gellir gweld y potensial i ailgylchu cyllid, gwneud buddsoddiadau ecwiti neu edrych ar sut y gellid gwireddu elw fel cryfder."*⁷⁷

75. Mae BDC yn nodi bod rhaid buddsoddi cyfalaf trafodiadau ariannol mewn prosiectau neu gronfeydd a all gynhyrchu enillion ariannol ac mewn rhai achosion gall proffiliau ad-dalu i Lywodraeth Cymru fod yn uwch na'r trothwy 80 y cant.⁷⁸ Esboniodd BDC sut mae cyfalaf trafodiadau ariannol o fudd o ran cyllido rhai meysydd nad ydynt yn cael cymorth benthycia masnachol gan fanciau. Dywedodd BDC y canlynol wrth y Pwyllgor:

*"At some of the banks, they may have sector restrictions ... So, for example, in Wales at the moment the banks don't like funding care homes, so we're finding ourselves doing a lot more funding to care homes, which we view as relatively low risk. So, it's still coming to us, because they can't actually get through the door at the bank because of the sector restrictions that they've got there."*⁷⁹

76. Mae nifer o brosiectau tai wedi defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol i ariannu prosiectau penodol. Mae United Welsh, mewn partneriaeth â Llamau, wedi datblygu Tai Ffres, sef gwasanaeth tai a chymorth i bobl ifanc.

77. Mae Tai Ffres yn nodi bod Cronfa Arloesi Llywodraeth Cymru i Atal Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc wedi'i helpu i ddatblygu ar y dechrau. Mae'n nodi bod £15 miliwn o gyllid benthyciad cyfalaf sero y cant gan Lywodraeth Cymru wedi'i alluogi i weithio i ddarparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel i bobl ifanc yng Nghaerdydd.⁸⁰

78. Yn ôl Tai Ffres, mae manteision y math hwn o gyllid yn cynnwys:

- Mae benthycia ar log o sero y cant yn galluogi Tai Ffres i leihau costau gweithredu'n sylweddol gan nad oes rhaid inni ystyried costau cyllid drwy fenthyciadau.

⁷⁷ Llywodraeth Cymru, *Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol*, Gorffennaf 2024.

⁷⁸ Y Pwyllgor Cyllid, *Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru*

⁷⁹ Y Pwyllgor Cyllid, *Cofnod y Trafodion*, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 70

⁸⁰ Y Pwyllgor Cyllid, *Tystiolaeth Ysgrifenedig: Tai Ffres* [Saesneg yn unig]

- Mae costau gweithredu is am y gwasanaeth hwn yn galluogi Tai Ffres i gynnig y rhenti isaf yng Nghaerdydd. Yn sylweddol is na llety rhentu preifat ac yn is na holl lety Cymdeithasau Tai eraill yn y ddinas.
- Mae absenoldeb gwasanaethu dyled yn golygu bod rhenti'n isel a bod modd cynnal y gwasanaeth heb fod angen Grant Cymorth Tai. Ariennir y pedwar aelod o staff yn llawn o'r incwm rhent o'r portffolio stoc (hyd yn oed am y rhenti isaf erioed).
- Drwy sicrhau bod yr arian ar gael ar unwaith, gallwn symud yn gyflym i gaffael ac adnewyddu eiddo.
- Mae natur hirdymor y benthyciad yn ein galluogi i feddwl a gweithredu'n strategol.
- Mae modd cynnal a mesur y gwasanaeth. Nid yw'r gwasanaeth mewn perygl oherwydd grantiau refeniw byrdymor neu gylchoedd cyllido.⁸¹

79. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £10 miliwn o gyllid benthyciad cyfalaf trafodiadau ariannol ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer gwasanaeth tai ieuenctid Tai Ffres a datblygu fflatiau stiwdio o fewn cynllun Tai Ffres.⁸² Ar hyn o bryd, mae gan Tai Ffres 28 uned o lety, y disgwylir iddi gynyddu i 102 o gartrefi o fewn 18-24 mis.⁸³

80. Mae United Welsh yn ystyried bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn un o ddarnau'r jig-so i allu mynd i'r afael â graddfa a chyflymder y galw yn ei sector, gan ychwanegu'r canlynol:

*"... our plea, if there's anything coming out of this, is to see whether we can develop this and scale it up, because we all know what the homelessness crisis is that's facing us, that we're dealing with at the moment."*⁸⁴

81. Eglurodd tystion eraill sut roedd cyfalaf trafodiadau ariannol o fudd i'w sectorau priodol. Dywedodd Fair4All Finance, undeb credyd, y canlynol wrth y Pwyllgor:

"... I think the advantage to the officials in Wales was that this capital provided through FTC was then able to leverage

⁸¹ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Tai Ffres [Saesneg yn unig]

⁸² Llywodraeth Cymru, Adroddiadau ar Benderfyniadau: 2022, Rhagfyr 2022, Cyllid ar gyfer prosiect digartrefedd Tai Ffres

⁸³ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Tai Ffres [Saesneg yn unig]

⁸⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraffau 198-199

Treasury's commitment for £3.8 million spread across admin funds and a bad-debt guarantee.”⁸⁵

82. Ychwanegodd fod cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan o'r cyfuniad o warantau cyfalaf a chymorth ehangach o ran arloesi sydd ei angen i newid y farchnad hon ac i roi hyder i bobl i wneud hyn yn wahanol.⁸⁶

83. Esboniodd Tirion Group Ltd fod cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn allweddol ac y byddai'r prosiectau mawr wedi arafu o leiaf pe na bai wedi cael y taliadau ychwanegol o gyfalaf trafodiadau ariannol.⁸⁷

84. Roedd tystion hefyd yn gadarnhaol wrth sôn am eu rhyngweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch sicrhau benthyciadau. Dywedodd United Welsh y canlynol:

“... we approached the Welsh Government with our ideas ... in terms of the model that we wanted to deliver, and ultimately then they directed us to the FTC funding, which we received in two tranches We felt the support from officers at the Welsh Government was really positive, particularly from the lawyers and the finance guys within the Welsh Government.”⁸⁸

85. Roedd Fair4All Finance wrth ei fodd â'r gwaith o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â chyfalaf trafodiadau ariannol a'i fod wedi bod yn brofiad da i bawb.⁸⁹ Roedd Tirion Group Ltd hefyd yn teimlo bod cyfathrebu â Llywodraeth Cymru ar fenthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn gryf⁹⁰ a bod swyddogion wedi bod o gymorth mawr, gan ychwanegu'r canlynol:

“We've had some direct loan extensions from the Welsh Government, which have helped us on the big regeneration projects we do when we've come across some difficult issues around remediation or whatever they might be. They've been used very effectively in those circumstances.”⁹¹

⁸⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 191

⁸⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 249

⁸⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 239

⁸⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 154

⁸⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 189

⁹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 205

⁹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 150

86. Fodd bynnag, cyflwynodd rhai sylwadau beirniadol yn eu tystiolaeth hefyd. O ran faint o amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau, dywedodd Tirion Group Ltd y canlynol:

*"The Development Bank of Wales process has been somewhat longer than we would normally expect with a retail bank, if I'm honest."*⁹²

87. Ychwanegodd Tirion Group Ltd fod diffyg eglurder ynghylch cyfalaf trafodiadau ariannol:

*"I think there's a bit of a lack of clarity about FTC, where it comes from. We've largely done our own research in the past about how it's structured and how it might be used ... I understand, but again I'm not absolutely certain, that there's FTC in the recent Development Bank of Wales construction loan we've secured as of yesterday for the next phases of the Parc Eirin development."*⁹³

88. Roedd Tirion Group Ltd hefyd yn teimlo nad oedd trafodaeth go iawn am gyfalaf trafodiadau ariannol fel y ffynhonnell ar gyfer canfod cyllid na'r hyn yr oedd hynny'n ei olygu⁹⁴, gan ychwanegu'r canlynol:

*"... we didn't have any guidance around FTC itself ... The Development Bank of Wales construction finance was a very traditional construction finance application process."*⁹⁵

89. Cydnabuwyd hyn gan BDC yn ei dystiolaeth:

*"... from a customer's point of view, a customer will not know whether it's an FTC loan or whether it's coming from general capital or whether in the past it was coming from European funds. So, from that point of view, we don't specifically ask for that."*⁹⁶

90. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet y pwynt hwn, ond teimlai mai dim ond ychydig y byddai hysbysebu cyfalaf trafodiadau ariannol yn codi ei ymwybyddiaeth:

⁹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 179

⁹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 150

⁹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 162

⁹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 160

⁹⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 49

“... the experience of using FTC is that a sort of general advertising of it doesn't get you a big result. You've got to be prepared to invest quite a lot of time and effort in taking individual companies, organisations, whatever, through the process. And even then, the result often is that, having learnt more about it, they decide it's not for them. So, it's not even an investment where you can be sure that there'll be a return in terms of—. But doing it that way has, in our experience, been more successful than just relying on a sort of general advertising of the scheme, or better information on the website and things. It takes you so far, but then you've got to get into quite some significant detail of how all this will work.”⁹⁷

91. Pan ofynnwyd iddo a oedd y broses ymgeisio yn rhy hir, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

“That's a fair thing for people to say, because the development bank is having to operate within the rules that are provided to us, and it is a lengthy process. It's not an easy process. It's a fairly off-putting process, we know, for some potential applicants. DBW has moved to try to streamline that process in a number of ways, but there are limits to how far it can go, because it itself is operating within that structure.”⁹⁸

92. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor hefyd nad yw'n hawdd defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol a honnodd fel a ganlyn:

“There is no great appetite out there in Wales for them ... By and large, those organisations who take financial transactions capital only do so after they've exhausted every other preferable source of funding.”⁹⁹

93. Roedd Tirion Group Ltd eisiau ffordd fwy strategol o edrych ar y ffordd y defnyddir cyfalaf benthyciadau, a nododd fod llawer o'r materion a wynebwr mewn tai fforddiadwy yn ymwneud â llif, hynny yw eu bod i gyd yn rhyng-gysylltiedig, a bod cyfalaf benthyciadau yn gallu bod yn ffordd bwerus iawn o wireddu hynny.¹⁰⁰ Yn ôl Tirion Group Ltd, drwy ddefnyddio'r dull hwn byddai'n llawer mwy tebygol i'r

⁹⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 37

⁹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 100

⁹⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 11

¹⁰⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 209

sector tai allu cyflawni'r prosiectau adfywio mawr hyn gan ganolbwyntio ar dai fforddiadwy.¹⁰¹

94. Wrth ymateb i'r pwynt hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod terfyn ar yr hyn y gall cyfalaf trafodiadau ariannol ei gyflawni:

*"If you wanted me to summarise what I think our strategic intent is, it is, despite the reservations, to make the best use of it, and I think we can demonstrate even to a sceptic like me that there are some very good success stories of using FTCs, and we're grateful, in that sense, to be able to use it."*¹⁰²

95. Fodd bynnag, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'n gwybod bod rhywbeth amlwg ar goll o ran y ffordd yr aed ati i'w ddefnyddio y gellid ei unioni. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*"I don't think the people we work with, despite their frustrations at the system, the length of time it takes, and the complexity involved in it, have ever suggested a strategic difference, rather than wishing that it could be simpler and more straightforward."*¹⁰³

Ad-dalu

96. Disgwylir i swm y cyfalaf trafodiadau ariannol a ddarperir i endidau gael ei ad-dalu'n llawn gan y benthyciwr/buddsoddwr, ni waeth beth yw llwyddiant neu fethiant yr hyn y defnyddir yr arian ar ei gyfer.¹⁰⁴ Dywedodd BDC fod cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn amodol ar broffiliau ad-dalu y cytunodd Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF arnynt a nododd fod targedau ad-dalu cyfalaf trafodiadau ariannol yn amrywio o 80 y cant i 100 y cant, a bod dyddiadau cau fel arfer yn ymestyn 10-15 mlynedd ar ôl y cyfnod ar gyfer defnyddio cronfeydd cyfalaf tymor estynedig.¹⁰⁵ Ar gyfer rhai buddsoddiadau tai ac adfywio, mae ad-daliadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn ymestyn i 2049.¹⁰⁶

97. Mewn perthynas ag amserlenni ad-dalu, nododd BDC y canlynol:

"Mae'r ystod hon o dargedau a therfynau amser ad-dalu yn allweddol i'n dull portffolio o reoli ymrwymadau CTA. Er bod

¹⁰¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 239

¹⁰² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 155

¹⁰³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 155

¹⁰⁴ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

¹⁰⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru

terfynau amser ad-dalu yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i ni flaen-lwytho CTA yn ein prosiectau, mae hyn yn ategu ein rhagolygon cadarn o enillion ar ei ymrwymïadau CTA.”¹⁰⁷

98. Aeth BDC ymlaen i ddweud y canlynol:

For companies, then, where we invest and they struggle, our remit is to try and help them, not to, if you like, enforce security and put the companies under. So, we are patient investors and we try and work with them, and we have the flexibility to extend their repayment times, when you take a portfolio approach and then still manage to track our repayments back to Welsh Government.”¹⁰⁸

99. Dywedodd Tirion Group Ltd wrth y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai cyfnodau amser a oedd yn gymwys i ad-dalu benthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael eu hestyn. Fodd bynnag, ychwanegwyd mai un o fanteision cael benthyciadau drwy Lywodraeth Cymru yw pe na allent ad-dalu un o'r benthyciadau ar y dyddiad ad-dalu y byddai'n gymharol hawdd ailstrwythuro dros gyfnod hirach ac ad-dalu'r benthyciad o'r incwm sy'n dod o'r cartrefi.¹⁰⁹

100. Pan y'i holwyd ynghylch y risgiau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu pan fydd rhywun yn methu â thalu benthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol, cadarnhaodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet fod rhaid i Lywodraeth Cymru asesu pa mor debygol yw'r benthyciad o gael ei ad-dalu cyn y gwneir unrhyw fuddsoddiad.¹¹⁰ Ychwanegodd y swyddog y canlynol:

“... it's where an assessment of each portfolio of loans or loans themselves need to be assessed for the risk of default, and that needs to be recognised upfront. So, that, I suppose, has brought an additional challenge to the use of FTCs as well, because that brings with it an additional resource departmental expenditure limit from any of the loans that we're putting through, of financial transactions, and that needs to be assessed as well.”¹¹¹

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 29

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraffau 227-228

¹¹⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 44

¹¹¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 45

101. O ran yr hyn y byddai Llywodraeth Cymru wedyn yn ei ad-dalu o'i dyraniad cyfalaf trafodiadau ariannol i'r Trysorlys, dywedodd BDC wrthym nad oedd ganddo'r wybodaeth honno wrth law:

*"we're not close enough to that information ... we just have our repayment obligations to the Welsh Government."*¹¹²

102. Pan ofynnwyd iddo amlinellu proses Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-dalu cyfalaf trafodiadau ariannol i'r Trysorlys, dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet:

*"It's not a physical payment transaction, so to speak....This was the mechanism agreed with the Treasury in the very early days of the financial transactions ring fence coming into play. Simply, all we do is we report to the Treasury what our outturn is of any particular financial year against that ring fence ... Any that we don't want to, of that underspend, carry forward using our Wales reserve facility is essentially the repayment to the Treasury. It's as simple as that."*¹¹³

103. Ychwanegodd y swyddog mai dyma sut mae Llywodraeth Cymru yn rheoli cyfalaf trafodiadau ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn, a nododd y canlynol:

*"It does help with some of the volatility. If we find that there are things that we can't use the money on, we can use that as a higher down payment on the amount that is outstanding to be repaid."*¹¹⁴

104. Pan ofynnwyd iddo a oedd lle i gynyddu gallu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio unrhyw danwariant o un flwyddyn i'r nesaf, dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"There is the opportunity to have a discussion with the UK Treasury about, potentially, because we've essentially increased the ring fence of FTC, could any of it be moved into our general capital. We've not got to that point, but it would be a discussion that we could go into."*¹¹⁵

¹¹² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraffau 91-92

¹¹³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2024, paragraff 123

¹¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2024, paragraff 123

¹¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2024, paragraff 137

Ailgylchu cronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol

105. Mae'r Datganiad o Bolisi Ariannu yn nodi bod cyllid ar gyfer cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael ei ddarparu ar sail net, oni nodir yn benodol fel arall.¹¹⁶ Mae hyn yn golygu bod modd i weinyddiaethau datganoledig ailgylchu ad-daliadau o fenthyciadau y maent yn eu cael mewn benthyciadau newydd am gyfnod amhenodol.¹¹⁷

106. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd BDC sut mae hyn yn gweithio'n ymarferol:

"Yn hytrach na chael un gronfa tymor byr, lle gellir bodloni ein rhwymedigaeth ad-dalu i Lywodraeth Cymru, gall CTA mewn rhai amgylchiadau gael ei ddefnyddio dros gyfnod mwy estynedig trwy ailddefnyddio derbyniadau. Yn ganolog i'n cynaliadwyedd hirdymor mae'r gallu i ddefnyddio derbyniadau ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol, yn enwedig yng nghydestun nad yw ERDF [Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop] bellach yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Gall cyfuno CTA ag unrhyw gyfalaf craidd sydd ar gael greu atebion hirdymor mwy cynaliadwy."¹¹⁸

107. Ers 2022-23, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod wedi cael £1.1 biliwn mewn ad-daliadau cyfalaf trafodiadau ariannol ac wedi ad-dalu cyfanswm o £372.2 miliwn o gyfalaf trafodiadau ariannol i Drysorlys EF, gan ailgylchu dros £695 miliwn o ad-daliadau mewn prosiectau eraill.¹¹⁹

108. Nododd Llywodraeth Cymru y canlynol:

"O ystyried natur y trefniadau presennol, nid yw'n bosibl pennu dyraniadau cyllid wedi'i ailgylchu ar gyfer prosiectau penodol. Ar ôl ad-dalu cyllid i Lywodraeth y DU, mae cyllid sy'n weddill yn rhan o'r amlen gyffredinol wrth wneud dyraniadau ac fe'i defnyddir i ariannu cynigion a gyhoeddir yn ein Cyllidebau."¹²⁰

¹¹⁶ Trysorlys EF, Datganiad o bolisi ariannu: Ariannu Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hydref 2021, Pennod 6 (Saesneg yn unig)

¹¹⁷ Trysorlys EF, Datganiad o bolisi ariannu: Ariannu Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Hydref 2021, Pennod 6 (Saesneg yn unig)

¹¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Tystiolaeth Ysgrifenedig: Banc Datblygu Cymru

¹¹⁹ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

¹²⁰ Llywodraeth Cymru, Sleidiau ar gyfalaf trafodiadau ariannol, Gorffennaf 2024.

109. Soniodd BDC am ailgylchu arian, er enghraifft cronfa eiddo Cymru yn benodol:

“... recycling is something that we've moved on to, because of the long length of the financial transactions that can be out there. So, we actually have really created the property fund. We started off with a £10 million property fund 1 and tried to prove the model, and then we moved, after that fund finished and had all its capital back, onto our Wales property fund 2 and the Wales stalled sites fund. And they're both £54.5 million each. So, £110 million. And those are the two main funds that are recycling.”¹²¹

110. Er bod yr effaith ar arian y mae'n addas ei ailgylchu yn sylweddol, nid yw'r holl arian yn addas i'w ailgylchu. Esboniodd BDC mai dim ond unwaith y bydd y rhan fwyaf o'i arian yn cael ei fuddsoddi:

“... it's only our property funds, effectively, that we're recycling, and they self-generate their exits, because they build the property, they then sell the property and the cash comes back in to us. So, that cycle is pretty safe, so I call that a low-risk fund.”¹²²

111. O ran y fantais o ailgylchu drwy gronfeydd eiddo, nododd BDC y canlynol:

“... it's a very, very low risk for us, so in terms of recycling, because we're getting effectively, in general, all our money back, then you're starting back at zero, if you like, again ... So, this is why it's a really good model for a low-risk fund, when you're getting back all of your capital. It then works then from a recycling basis.”¹²³

112. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod ailgylchu yn nodwedd gadarnhaol o gyfalaf trafodiadau cadarnhaol:

“I don't want to say to you that we're not glad to have it, because without it we would not be able to do some of the things that we do. I don't want to say that I don't think that there are sometimes very good reasons why you would wish to

¹²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 99

¹²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 99

¹²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Gorffennaf 2024, paragraff 101

provide money of this sort on a loan basis, because, when the money comes back, you can recycle it and use it again."¹²⁴

113. O ran sut y gellid ailgylchu cyfalaf i wasgaru cyllid ar draws meysydd ychwanegol, dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"I think part of the question maybe is about the extent to which you recycle within that actual programme, rather than the money coming back for Ministers to make another choice then about how that funding is deployed. There's quite a lot of debate about that at times, about whether, for example, money that comes back in to Help to Buy should then be used for purposes other than housing. So, that's something that is quite an important policy choice about, 'Okay, what's our priority for use of financial transactions now? Is it continuing to be housing or is it other areas of activity, like business investment?'"*¹²⁵

Barn y Pwyllgor

114. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn rhan sylweddol o gyllideb Llywodraeth Cymru, a bod BDC wedi defnyddio dros £1.1 biliwn mewn cyfalaf trafodiadau ariannol i ddiwallu ystod eang o anghenion am gyllid drwy fenthyciadau. Rydym hefyd yn nodi rôl Llywodraeth Cymru o ran defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol i wneud buddsoddiadau uniongyrchol, â busnesau yn bennaf.

115. Rydym hefyd yn nodi bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael ei ddefnyddio ar draws nifer o feysydd o fewn adrannau Llywodraeth Cymru, yn enwedig tai a'r economi. Rydym hefyd yn nodi barn yr Ysgrifennydd Cabinet bod gwybodaeth o fewn Llywodraeth Cymru am gyfalaf trafodiadau ariannol yn amrywio, ac y bydd yn wahanol gan ddibynnu a oes gan adrannau brofiad o ddefnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol yn y gorffennol ai peidio.

116. Er ein bod yn cytuno â'r Ysgrifennydd Cabinet bod maint cymharol fach Llywodraeth Cymru yn galluogi swyddogion i rannu mwy o wybodaeth a cheisio cyngor ar gyfalaf trafodiadau ariannol yn haws, rydym yn ei chael yn arbennig o rwystredig mai dim ond nifer bach o feysydd sy'n ei ddefnyddio i gyflawni nodau polisi. Mae'r Pwyllgor yn credu bod mwy o le i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r

¹²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 11

¹²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2024, paragraff 171

offeryn hwn yn fwy nag y mae ar hyn o bryd ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i godi ei hymwybyddiaeth a sicrhau ffordd well o rannu gwybodaeth a hyfforddiant.

117. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod, cyn i waith o'r fath gael ei wneud, fod angen dealltwriaeth well ar Lywodraeth Cymru o'r meysydd lle y byddai'n briodol defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol. Felly, mae'r Pwyllgor yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i gynnal dadansoddiad sectoraidd o'r defnydd o gyfalaf trafodiadau ariannol er mwyn nodi meysydd a fyddai'n elwa o fuddsoddiad o'r fath. Pan fydd canfyddiadau o'r fath yn hysbys, credwn y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol mewn ffordd fwy effeithiol i gyflawni ei nodau polisi.

118. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r meini prawf a amlinellwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet o ran sut y dylid mesur llwyddiant mewn perthynas â chyfalaf trafodiadau ariannol, ac mae'n cytuno y byddai cymhwysu'r egwyddorion hyn yn arwain at weledigaeth gliriach o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflawni wrth ddefnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol. Credwn hefyd y dylid ymgorffori'r egwyddorion hyn o fewn canllawiau perthnasol ar gyfalaf trafodiadau ariannol a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru a BDC ar gyfer busnesau, fel bod y canlyniadau disgwylid yn hysbys ar y dechrau, cyn i fusnesau wneud ceisiadau am gyllid.

119. Mae'r Pwyllgor yn nodi cryfderau cyfalaf trafodiadau ariannol a'r nifer o ffyrdd y cafodd ei ddefnyddio i gyflawni amcanion polisi sylweddol ar draws sector cyhoeddus Cymru. Rydym hefyd yn croesawu profiadau cadarnhaol cyffredinol tystion wrth ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a BDC wrth gael gafael ar fenthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol ac yn enwedig y ffordd y caiff ei ddefnyddio fel rhan hanfodol o'r jig-so i gynhyrchu canlyniadau pendant gyda manteision cymdeithasol clir, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod hyn braidd yn groes i farn yr Ysgrifennydd Cabinet ei hun nad oes awydd mawr yng Nghymru am gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol a bod sefydliadau sy'n defnyddio cyllid o'r fath ond yn gwneud hynny ar ôl iddynt ddisbyddu pob ffynhonnell well arall. Er ein bod yn nodi bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn ffynhonnell ariannu gymhleth y gall fod yn anodd i sefydliadau gael gafael arni a'i defnyddio, credwn fod safbwyntiau'r Ysgrifennydd Cabinet yn peryglu tanbrizio cyfalaf trafodiadau ariannol, o gofio ein bod wedi cael tystiolaeth gan nifer o dystion sydd wedi'i chael yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyllid i fodloni nodau ac amcanion penodol.

120. I'r gwrthwyneb, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o wendidau cyfalaf trafodiadau ariannol ac yn rhannu pryderon y tystion hynny a feirniadodd y ffordd

y mae cyfalaf trafodiadau ariannol yn gweithredu'n ymarferol, yn enwedig o ystyried yr amser y mae'n ei gymryd i fenthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol ddod i'r amlwg, yn ogystal â diffyg ymwybyddiaeth sefydliadau a allai elwa o gyfalaf trafodiadau ariannol a'r diffyg gwybodaeth ynghylch o ble y daw cyllid o'r fath.

121. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Ysgrifennydd Cabinet mai dim ond i ryw raddau y byddai mwy o hysbysebu yn codi ymwybyddiaeth o gyfalaf trafodiadau ariannol a bod angen dull â mwy o bwyslais i wneud y defnydd mwyaf o gyfalaf trafodiadau ariannol, sy'n golygu buddsoddi amser ac ymdrech i drafod opsiynau gyda chwmnïau a sefydliadau unigol a'u cynghori o ran ai cyfalaf trafodiadau ariannol yw'r ffynhonnell cyllid fwyaf priodol iddynt.

122. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cytuno â'r Ysgrifennydd Cabinet bod y broses o wneud cais am gyfalaf trafodiadau ariannol yn hir ac yn anodd i fusnesau. O ganlyniad, mae gennym ddi-ddordeb arbennig mewn ymdrechion diweddar gan BDC i symleiddio'r broses ymgeisio, a'r rhwystrau a wynebodd wrth wneud hynny. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau yn y maes hwn i ystyried a ellir gwella fframweithiau presennol ar gyfer proses ymgeisio symlach i alluogi mwy o gwmnïau a sefydliadau yng Nghymru i elwa o gyllid cyfalaf trafodiadau ariannol.

123. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r beirniadaethau a godwyd mewn tystiolaeth nad oes gan Lywodraeth Cymru ddull strategol o ddefnyddio cyfalaf benthyciadau ac y byddai dull mwy rhyng-gysylltiedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phrosiectau adfywio sylweddol yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, fel yr ydym eisoes wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn (gweler Pennod 2), rydym yn cydnabod bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn ei hanfod yn ansicr ac yn anwadad, ac yn derbyn bod hyn yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru gynllunio ar gyfer ei ddefnyddio mewn modd strategol dros y tymor canolig i'r tymor hir. Rydym hefyd yn derbyn barn yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn fwy defnyddiol cymryd camau ymarferol, megis symleiddio'r broses, i sefydliadau sy'n defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol, nag i Lywodraeth Cymru ddatblygu gweledigaeth ynghylch ei ddefnyddio.

124. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau pragmatig i ddatblygu dull mwy cyfannol o ddyrannu cyfalaf trafodiadau ariannol. Er ein bod yn ymwybodol o'r sensitifrwydd masnachol dan sylw, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi manylion ynghylch dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol ynghyd ag esboniad am y rhesymau dros ddarparu cyllid o'r fath. Credwn y byddai mwy o onestrwydd yn y maes hwn yn ei gwneud yn bosibl craffu ar y darlun mawr o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyfalaf

trafodiadau ariannol i wella'r ffordd y caiff dyraniadau o'r fath eu gwneud ac y gellir sicrhau gwerth am arian. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod o gyfyngiadau cyllidol, lle yr effeithiwyd ar gyllidebau cyfalaf yn benodol, a chredwn y byddai hwn yn gam syml i sicrhau bod cyfalaf trafodiadau ariannol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

125. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r prosesau ad-dalu sy'n gymwys i fenthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol ac yn cydnabod bod dull hyblyg o reoli terfynau amser ad-dalu yn nodweddd gadarnhaol sy'n galluogi BDC i fod yn fuddsoddwyr tymor estynedig, sydd, yn ein barn ni, yn allweddol wrth fanteisio i'r eithaf ar effaith cyfalaf trafodiadau ariannol.

126. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod proses Llywodraeth Cymru o ad-dalu ei dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol i Drysorlys EF. Rydym yn croesawu'r esboniad a roddodd yr Ysgrifennydd Cabinet a'i swyddogion am sut mae hyn yn digwydd yn ymarferol. Rydym hefyd yn croesawu gallu Llywodraeth Cymru i gario tanwariant mewn ad-daliadau o un flwyddyn i'r llall a bod hwn yn ffordd ddefnyddiol o wneud cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol yn llai anwadal yn ei hanfod.

127. Fodd bynnag, credwn fod angen rhagor o eglurhad ynghylch y broses hon ac rydym am i wybodaeth o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn trafod yn fwy helaeth y ffordd orau o wneud y gorau o'r hyblygrwydd sydd ar gael. Nodwn yn benodol sylwadau swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet a soniodd am y posibilrwydd o drafod ffyrdd y gellid defnyddio tanwariant yn ymwneud ag ad-daliadau cyfalaf trafodiadau ariannol i Drysorlys EF fel rhan o gyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru. O ystyried y cyfyngiadau presennol ar gyllidebau cyfalaf, mae'n werth ymchwilio ymhellach i hyn ac rydym yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i egluro sut y gellid gwneud hyn o fewn y rheolau presennol ar gyfalaf trafodiadau ariannol.

128. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a gyflwynwyd sy'n esbonio sut y gellir ailgylchu ac aildefnyddio benthyciadau cyfalaf trafodiadau ariannol, a bod y dull hwn wedi'i ddefnyddio fel ffordd bragmatig nad yw'n peri llawer o risg i wneud y mwyaf o'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu'r dulliau arloesol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru o fewn y rheolau ar gyfalaf trafodiadau ariannol i wneud hyn yn bosibl, a hefyd yn cydnabod nad yw'n bosibl ailgylchu ym mhob achos oherwydd natur rhai prosiectau sy'n cael eu cefnogi.

129. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Cabinet am gadarnhau na ddefnyddir cyfalaf trafodiadau ariannol at unrhyw ddiben sy'n golygu na ellir ailgylchu'r arian hwnnw. Fodd bynnag, mae'n siom arnom nad oedd Llywodraeth

Cymru yn gallu rhoi eglurhad am faint o gyfalaf trafodiadau ariannol sy'n cael ei ailgylchu bob blwyddyn yn ei dogfennaeth gyllidebol. Mae gennym ddi-ddordeb hefyd mewn sylwadau a gyflwynodd swyddogion sy'n cefnogi'r Ysgrifennydd Cabinet o ran cwmpas ailgylchu cyfalaf trafodiadau ariannol y tu allan i raglenni y'i dyrannwyd ar eu cyfer i ddechrau, fel y gellid ei ddefnyddio ar draws nifer o feysydd i gyd-fynd â blaenoriaethau polisi a chyllidebol Llywodraeth Cymru. Credwn fod hwn yn faes a fyddai'n elwa o ymchwilio ymhellach a gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet edrych ar hyn a rhoi diweddariad i'r Pwyllgor maes o law.

Argymhelliad 7. Tudalen Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnal dadansoddiad o'r defnydd o gyfalaf trafodiadau ariannol, fesul sector, ac yn cyflwyno ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod gwybodaeth ac arbenigedd sy'n ymwneud â chyfalaf trafodiadau ariannol yn cael eu rhannu ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, a bod hyfforddiant yn cael ei dargedu at staff mewn meysydd polisi nad ydynt wedi defnyddio'r cyllid hwnnw yn llawn hyd yn hyn.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi'r tri maen prawf llwyddiant a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfalaf trafodiadau ariannol a bod hyn yn rhan o ganllawiau i fusnesau sydd â diddordeb mewn gwneud cais am gyllid o'r fath fel bod y canlyniadau disgwylidig yn hysbys ar y dechrau cyn gwneud cais.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi rhagor o wybodaeth am y camau a gymerwyd gan Fanc Datblygu Cymru i symleiddio'r broses ymgeisio am gyfalaf trafodiadau ariannol, a'r rhwystrau a wynebodd wrth wneud hynny o fewn y fframwaith presennol.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi manylion ynghylch dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a wneir o fewn ei gyllideb a'r rhesymau dros y cyllid hwnnw, bob blwyddyn.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi rhagor o eglurhad ynghylch y broses y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i ad-dalu ei chyfalaf trafodiadau ariannol i Drysorlys EF, ac yn sicrhau bod yr wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd.

Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn esbonio sut y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio tanwariant mewn dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol fel cyfalaf cyffredinol.

Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro faint o gyfalaf trafodiadau ariannol sy'n cael ei ailgylchu bob blwyddyn ariannol, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhoi yn ei chyllideb ddrafft flynyddol a'i dogfennaeth alldro fel mater o drefn.

Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn ymchwilio i'r dull o ddefnyddio cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i ailgylchu ar draws nifer o feysydd y dyrannwyd ar eu cyfer yn wreiddiol o fewn rheolau cyfalaf trafodiadau ariannol, er mwyn ei gwneud yn bosibl defnyddio'r arian hwnnw yn hyblyg i gyd-fynd â blaenoriaethau polisi a chyllidebol Llywodraeth Cymru.